

Ymgynghoriad ar ddiwygio Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

UKSCQA/01

Hydref 2017



Mae'r Pwyllgor Sefydlog Asesu Ansawdd i'r DU [*UK Standing Committee for Quality Assessment*] (UKSCQA) yn darparu goruchwyliaeth dan arweiniad y sector ar y trefniadau asesu ansawdd ym maes addysg uwch sy'n parhau i gael eu rhannu drwy'r DU gyfan. Tynnir nifer o aelodau'r pwyllgor o brifysgolion a cholegau a gyllidir yn gyhoeddus, ac o'r darparwyr hynny sydd wedi'u dynodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn Lloegr i bwrpasau cymorth ariannol i'w myfyrwyr. Cynrychiolir buddiannau'r myfyrwyr gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr a gan aelodau unigol sy'n fyfyrwyr. Tynnir ei aelodaeth hefyd o'r pedwar corff cyllido addysg uwch yn y DU, cyrff eraill yn y sector a phartneriaid rheoleiddio.

www.ukscqa.org.uk

Bydd ASA yn cydlynu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ran UKSCQA. Cynhelir yr ymgynghoriad yma ar ran holl aelodau UKSCQA, sy'n cynnwys y pedwar corff cyllido addysg uwch yn y DU:: DfENI, HEFCE, CCAUC, a SFC.

www.qaa.ac.uk

Fersiynau mewn ffurf arall

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gallwch lawrlwytho'r ddau fersiwn o wefan UKSCQA (www.ukscqa.org.uk) ac o wefan ASA (www.qaa.ac.uk). I ddarllenwyr nad ydynt yn gallu cysylltu â'r we, mae'r cyhoeddiad hefyd ar gael ar CD neu mewn print mawr gan HEFCE, sy'n gweithredu swyddfa ar ran UKSCQA. Gallwch ofyn am fersiynau mewn ffurf arall drwy ffonio 0117 931 7305 neu drwy anfon e-bost at customerservices@hefce.ac.uk

Trosolwg o'r Cod Ansawdd

Dros y bum mlynedd ddiwethaf, mae'r Cod Ansawdd wedi datblygu i fod y pwynt cyfeirio diffiniol ar gyfer rheoli safonau ac ansawdd yn addysg uwch y DU. Mae wedi derbyn cymeradwyaeth genedlaethol a rhyngwladol am y rôl y mae'n ei chwarae i ddiogelu safonau ac ansawdd ac i yrru newid er gwell.

Mae'r Cod yn ymgorffori'r agwedd gyd-reoleiddio sy'n tanategu addysg uwch y DU.

Mae'n eiddo ar y cyd i'r sector addysg uwch, cafodd ei ddatblygu gan grwpiau o arbenigwyr sy'n cynrychioli'r sector, ac mae'n cael ei ddiweddarau drwy ymgynghori'n rheolaidd â darparwyr, myfyrwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cyflwyno cynnig eofn ar gyfer agwedd newydd tuag at y Disgwyliadau y mae'r Cod Ansawdd yn eu gosod, ac mae'n ceisio sicrhau bod y Cod yn cyflawni ei rôl orau y gall fel gwarantwr ansawdd yn addysg uwch y DU, gan ddiogelu buddiannau'r myfyrwyr a'r cyhoedd, ac yn parhau i hyrwyddo enw da addysg uwch y DU am fod ymysg y gorau yn y byd.

Mae'r ymgynghoriad yn cymryd agwedd sy'n galluogi'r Cod i fod yn hyblyg ac yn ymatebol yng nghyd-destun newidiadau rheoliadol parhaus ar draws y gwledydd ac yn nhirlun cynyddol amrywiol addysg uwch y DU. Mae'n rhoi lle canolog i fyfyrwyr, ac mae'n adlewyrchu barn y sector ynglŷn â sut y dylid addasu a datblygu'r Cod i'w alluogi i wasanaethu sector sy'n newid yn gyflym orau y gall.

Mae'r papur hwn yn cynnig proses ddiwygio sy'n cychwyn ar y lefel uchaf, gyda Disgwyliadau symlach newydd ar gyfer y sector, ac mae'n gosod amserlen ar gyfer y camau gweithredu i'w cymryd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Disgwyliadau hyn, a'r gwaith dilynol o ddatblygu'r Cod. Lluniwyd y broses ddiwygio i gynnwys y sector addysg uwch a'r myfyrwyr ar bob cam.

Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) yn cydlynu'r ymgynghoriad hwn ar ran y Pwyllgor Sefydlog Asesu Ansawdd i'r DU (UKSCQA), sy'n gyfrifol am oruchwylio'r Cod yn strategol. Mae UKSCQA yn cefnogi ac yn cymeradwyo'r cynigion sydd wedi'u nodi yn y papur hwn.

Rhagor o wybodaeth am y Cod Ansawdd

Datblygwyd Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd) gan ASA yn 2012 mewn cydweithrediad â phrifysgolion, colegau a myfyrwyr. Mae wedi disodli ac wedi adeiladu ar y Seilwaith Academaidd, sef y gyfres flaenorol o feincnodau ar gyfer ansawdd a safonau, a oedd hefyd wedi cael ei datblygu a'i rheoli gan ASA.

Mae'r Cod yn gweithredu ledled y DU, ac mae'n berthnasol i ddarparwyr addysg uwch sy'n gweithredu ymhob un o bedair gwlad y DU, yn ogystal ag i ddarpariaeth addysg uwch y DU a ddarperir dramor. Mae darparwyr addysg uwch yn defnyddio'r Cod i sicrhau bod y dyfarniadau y maent yn eu cynnig yn gyson â'r safonau sydd wedi'u cytuno'n genedlaethol, ac i reoli ansawdd y profiad academaidd y maent yn ei ddarparu i'w myfyrwyr. Ar hyn o bryd, mae'r Cod yn gosod 19 Disgwyliad y dylai darparwyr addysg uwch y DU eu bodloni.

Cefndir yr ymgynghoriad hwn

Adborth gan ddarparwyr

Yn ystod 2016-17, casglodd ASA adborth ac awgrymiadau gan ddarparwyr ynglŷn â sut y dylid datblygu'r Cod Ansawdd ar gyfer y dyfodol. Dyma ddywedwyd wrthym yn yr adborth hwn:

Yr hyn mae darparwyr yn ei werthfawrogi am y Cod Ansawdd

Mae darparwyr yn gwerthfawrogi mai'r Cod:

- yw'r meincnod ar gyfer safonau ac ansawdd yn addysg uwch y DU
- sy'n rhwymo sector addysg uwch y DU ynghyd ac sy'n sefydlu dealltwriaeth gyffredin o addysg uwch y DU
- sy'n tanategu systemau ansawdd sydd gan ddarparwyr ledled y DU yn barod
- sy'n gosod paramedrau clir ar gyfer darparwyr newydd sy'n mynd i mewn i'r sector.

Mae'r sector wedi'i ymrwmo i barhau i ddefnyddio'r Cod i danategu, siapio a datblygu'r ffordd y mae'n rheoli ansawdd a safonau.

Sut mae angen i'r Cod Ansawdd newid

Ym marn y darparwyr, byddai nifer o agweddau trosfwaol y Cod yn elwa o gael eu hadolygu a'u gwella. Dyma nhw:

- ei hygyrchedd - er mwyn sicrhau ei fod yn gallu gwasanaethu amrywiaeth o gynulleidfaeod yn well, gan gynnwys myfyrwyr, academyddion a llywodraethwyr
- ei eglurder - er mwyn sicrhau bod arbenigwyr a phobl eraill yn deall y derminoleg a ddefnyddir, drwy wneud ei ofynion yn fwy eglur a manwl gywir
- ei strwythur - er mwyn sicrhau bod hwn yn reddfodol i ddefnyddwyr o ran yr amrywiol ffyrdd y mae pobl yn meddwl am ansawdd a safonau, ac er mwyn galluogi'r defnyddwyr i 'daro llygad yma ac acw' ar y cynnwys yn haws
- ei gwmpas - er mwyn ei symleiddio mewn ffyrdd sy'n gostwng dyblygu mewnol ac achosion o orgyffwrdd gyda phwyntiau cyfeirio allanol eraill
- gwelliant, fel thema drosfwaol yn y Cod ond un y mae rhai'n teimlo nad yw'n ddigon amlwg ac sydd angen ei ehangu ymhellach.

Blaenoriaethau o ran y Cod Ansawdd

Ym marn y darparwyr, dylai nifer o bynciau allweddol dderbyn ystyriaeth fel blaenoriaethau yn y dyfodol wrth ddatblygu'r cyfarwyddyd sy'n tanategu'r Cod. Dyma nhw:

- cyflogadwyedd
- dysgu seiliedig ar waith a gweithio gyda chyflogwyr
- dysgu hyblyg a dysgu o bell
- gweithio gyda darparwyr eraill yn y DU
- gweithio gyda darparwyr rhyngwladol
- cyfranogaeth myfyrwyr
- defnyddio data wrth fonitro ac adolygu rhaglenni.

Newidiadau yn y tirlun addysg uwch ehangach

Wrth i ni fyfyrto ar ddyfodol y Cod, mae newidiadau sylfaenol yn digwydd i'r systemau o sicrhau a rheoli addysg uwch ledled y DU:

- Cadarnhaodd y sector yn yr Alban ei gefnogaeth i'r Fframwaith Gwella Ansawdd. Gan ddilyn themâu blaenorol, yn cynnwys trosglwyddiad a chyflogadwyedd, bydd Thema Gwelliant newydd yn canolbwyntio ar welliant ar sail tystiolaeth.
- Ar ôl cyhoeddi adroddiad Hazelkorn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar broses eang o ddiwygio hyfforddiant ac addysg ôl-orfodol. Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) wedi datblygu Fframwaith Asesu Ansawdd newydd i roi ystyriaeth i Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a'r newidiadau eraill ym maes ansawdd ledled y DU.
- O ganlyniad i sefydlu Swyddfa Myfyrwyr newydd yn Lloegr, cyflwynwyd goblygiadau statudol newydd ac agwedd reoleiddio wahanol sy'n rhoi rôl ganolog i 'safonau a gydnabyddir gan y sector'.
- Mae darparwyr yn edrych fwyfwy ar ffyrdd arloesol o gynnig darpariaeth, gan gynnwys graddau 'carlam', darpariaeth oddi ar y campws a phrentisiaethau.

Gweledigaeth UKSCQA ar gyfer y Cod Ansawdd

Ym mis Mehefin 2017, cyfarfu UKSCQA i ystyried a chytuno ar weledigaeth ar gyfer cyfeiriad y Cod yn y dyfodol, yng nghyd-destun yr adborth roeddent wedi'i dderbyn gan y sector, a chan roi ystyriaeth i'r newid parhaus yn y tirlun rheoleiddio sydd wedi'i amlinellu uchod. Cytunodd y Pwyllgor ar weledigaeth lle bydd y Cod:

- yn uno addysg uwch y DU, yng nghyd-destun y tirlun rheoleiddio sy'n gynyddol amrywiol
- yn ffynhonnell i gael gwybodaeth ddiffiniol am yr hyn sy'n haeddu cael ei alw'n 'dda' yn addysg uwch y DU
- yn eiddo i'r sector addysg uwch, ac yn cael ei reoli ar y cyd mewn ffordd sy'n galluogi'r holl ddarparwyr i lywio datblygiad y Cod yn rhagweithiol yn y dyfodol
- yn hyblyg ac yn gallu ymateb yn gyflym i newid
- yn sefydlog ac yn parhau i esbonio'r egwyddorion sylfaenol y dylid glynu atynt mewn addysg uwch er bod y cyd-destunau'n newid
- wedi'i strwythuro a'i ysgrifennu mewn ffordd sy'n caniatáu iddo fod yn fanwl ac yn hawdd ei ddefnyddio
- yn rhyngweithiol ac yn cynnig hyblygrwydd i'w ddefnyddwyr
- yn egluro ac yn disgrifio'n fwy manwl i'r darparwyr hynny sy'n ceisio gwella eu harferion beth yw perfformiad sy'n goruchafu ar y gofynion sylfaenol.

Cynnig ar gyfer datblygu'r Cod Ansawdd yn y dyfodol

Yn hytrach nag adolygu'r Cod presennol bennod ar ôl pennod, mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig dull cyfannol o ail siapio ac ailstrwythuro'r Cod. Y nod trwy wneud hynny yw sicrhau egwyddorion craidd y Cod, gan ganiatáu mwy o hyblygrwydd i ateb anghenion sector sy'n gynyddol amrywiol, a gwahanol gyd-destunau'r gwledydd o fewn y DU. Canlyniad y dull a gynigir fydd Cod a fydd yn edrych ac yn teimlo'n wahanol ond a fydd yn dal i sicrhau parhad i'r sector ac yn dal i ddiogelu ei enw da drwy'r byd i gyd. Ei nod yw cefnogi amrywiaeth y Cod a galluogi pobl i barhau i ddefnyddio'r Cod drwy'r DU gyfan. Yn sylfaen i'r dull yma mae ymrwymiad i gynnal yr egwyddor o gyd-berchnogaeth, ac mae'n cynnwys gwybodaeth i esbonio sut y bydd cyd-berchnogaeth â'r sector wedi'i gynnwys yn y broses o ailddatblygu a rheoli'r Cod yn y dyfodol.

Cyfes symlach newydd o Ddisgwyliadau

Y prif gynnig yw cyflwyno haen uchaf newydd i'r Cod sy'n symlach ac sy'n cynnwys nifer llai o Ddisgwyliadau troswaol. Mae'r Disgwyliadau hyn yn nodi'n glir ac yn gryno beth yw'r gofynion troswaol sydd ymhlyg yn strwythur presennol y Cod, sef bod gan ddarparwyr y cyfrifoldeb am osod a chynnal safonau eu dyfarniadau (ar y lefel trothwy ac yn uwch na'r trothwy), ac am reoli ansawdd eu darpariaeth. Yn ogystal, maent yn rhoi lle mwy blaenllaw i gyfrifoldebau'r darparwyr i reoli ansawdd a hybu symudedd cymdeithasol wrth gynnig systemau derbyn teg.

Mynegir pob Disgwyliad yn nhermau'r canlyniad ac mewn iaith sy'n cefnogi ymgysylltu ehangach gyda staff academaidd a myfyrwyr wrth weithredu'r Disgwyliad.

Cynigir bod y Disgwyliadau hyn yn disodli Disgwyliadau presennol y Cod yn hytrach nag ychwanegu atynt. O ganlyniad, defnyddir manylion y Disgwyliadau presennol i hysbysu cyfres danategol o 'arferion craidd ac arferion ategol' sy'n eistedd o dan y lefel uchaf.

Tanategu'r arferion craidd

Ochr yn ochr â phob Disgwyliad mae un neu fwy o arferion craidd sy'n enghraifft o gyflawniad y canlyniad a ddisgrifir. Mae'r arferion hyn yn ffyrdd effeithiol o weithio sy'n gallu sicrhau canlyniadau positif ar gyfer y myfyrwyr. Mae nifer o'r arferion craidd yn cyfateb yn agos â'r Disgwyliadau presennol yn y Cod, ond maent yn cynnig rhesymoli a mwy o eglurder, yn rhoi myfyrwyr wrth graidd ffocws y Cod, ac yn amcanu i roi gwell gwasanaeth i sector sy'n gynyddol amrywiol a blaenoriaethau pob gwlad.

Nodir y Disgwyliadau a gynigir a'r arferion craidd cysylltiedig yn Nhabl 1.

Tabl 1

Y Disgwyliadau	Yr arferion craidd
<p>Safonau</p> <p>Mae'r darparwr yn sicrhau gwerth y cymwysterau a ddyfermir ac a roddir i'r myfyrwyr pan fyddent yn cymhwyso a thros amser, yn unol â'r safonau a gydnabyddir gan y sector.</p> <p>Mae'r darparwr yn darparu cyrsiau sy'n cyfateb â'r safonau academaidd fel y maent wedi'u disgrifio yn y fframwaith cymwysterau cenedlaethol sy'n berthnasol¹.</p>	<p>Mae'r myfyrwyr yn cyflawni'r safonau academaidd trothwy fel y maent wedi'u disgrifio yn y fframwaith cymwysterau.</p>
	<p>Mae'r myfyrwyr yn cyflawni safonau sy'n uwch na'r lefel trothwy sy'n rhesymol gyfatebol â'r rheiny a gyflawnir gan fyfyrwyr darparwyr eraill yn y DU.</p>
	<p>Mae'r darparwyr sydd â phwerau dyfarnu graddau'n sicrhau safonau pob un o'u dyfarniadau, lle bynnag neu sut bynnag y cânt eu darparu neu pwy bynnag sy'n eu darparu.</p>
	<p>Mae'r darparwr yn defnyddio prosesau ar gyfer asesu a dosbarthu sy'n ddibynadwy, yn deg ac yn eglur.</p>
<p>Ansawdd</p> <p>Mae'r darparwr yn darparu cyrsiau a luniwyd yn dda sy'n rhoi profiad academaidd o safon uchel ac sy'n caniatáu i gyflawniad y myfyriwr gael ei asesu mewn ffordd ddibynadwy.</p> <p>Mae'r darparwr yn cefnogi ei fyfyrwyr, hyd yn oed yn ystod y system dderbyn, i gwblhau profiad academaidd o safon uchel yn llwyddiannus, ac i elwa ohono.</p>	<p>Mae'r darparwr yn llunio ac yn darparu cyrsiau o safon uchel.</p>
	<p>Mae gan y darparwr nifer ddigonol o staff sydd â'r cymwysterau a'r profiad priodol i ddarparu profiad academaidd o safon uchel i'w fyfyrwyr i gyd.</p>
	<p>Mae gan y darparwr gyfleusterau ac adnoddau dysgu sy'n ddigonol i ddarparu profiad academaidd o safon uchel i'w fyfyrwyr i gyd.</p>
	<p>Mae'r darparwr yn gofyn am sylwadau ac adborth gan ei fyfyrwyr yn rheolaidd, ac mae'n gweithredu ac yn rhoi adborth mewn ymateb iddynt.</p>
	<p>Mae'r myfyrwyr yn deall sut i gwyno a gwneud apêl academaidd. Mae'r darparwr yn ymdrin â'r rhain mewn ffordd deg ac mewn da bryd, ac mae'n defnyddio eu canlyniadau fel sail ar gyfer gwella.</p>
	<p>Darperir rhaglenni ymchwil o safon uchel mewn amgylcheddau ymchwil sy'n addas ac yn gefnogol fel eu bod yn cefnogi'r myfyrwyr i gyflawni canlyniadau llwyddiannus ar lefelau academaidd, personol a phroffesiynol.</p>
	<p>Lle mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae'n cymryd y cyfrifoldeb am ansawdd profiad academaidd ei fyfyrwyr.</p>
	<p>Mae gan y darparwr system dderbyn ddibynadwy a theg sy'n sicrhau bod ei fyfyrwyr yn cael eu cyfateb â chysiau priodol ac yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen i gael profiad academaidd o safon uchel ac i gyflawni'n llwyddiannus.</p>

¹ Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ), sy'n cychwyn ar Lefel 4, a'r Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Sefydliadau Addysg Uwch yn yr Alban (FQHEIS), sy'n cychwyn ar Lefel 7.

1. A yw'r cynnig hwn yn darparu fframwaith cydlynol ar gyfer ansawdd a safonau addysg uwch y DU?
2. A yw'r Disgwyliadau diwygiedig yn mynegi'n briodol y canlyniadau'n hynny y dylai myfyrwyr a rhanddeiliaid allu eu disgwyl gan ddarparwyr addysg uwch?
3. A yw'r arferion craidd ar gyfer y safonau'n addas ac yn ddigon hyblyg i:
 - a. Wasanaethu anghenion pob un o wledydd y DU?
 - b. Wasanaethu anghenion sector sy'n gynyddol amrywiol?
4. A yw'r arferion craidd ar gyfer ansawdd yn addas ac yn ddigon hyblyg i:
 - a. Wasanaethu anghenion pob un o wledydd y DU?
 - b. Wasanaethu anghenion sector sy'n gynyddol amrywiol?

Arferion ategol ar gyfer dulliau o sicrhau gwelliant

Yn ogystal â'r Disgwyliadau a'r arferion craidd hyn, bydd y Cod yn cynnwys cyfres o arferion ategol. Eu hamcanion penodol yw hysbysu dulliau o sicrhau gwelliant mewn ansawdd a safonau drwy ddisgrifio nodweddion allweddol perfformiad da sy'n uwch na'r gofynion sylfaenol a osodir yn yr arferion craidd. Gofynnwn i'r sector addysg uwch a rhanddeiliaid allweddol eraill roi eu barn a'u syniadau ynghylch beth ddylai fod yn arferion ategol, er mwyn adlewyrchu'r meddylfryd cyfredol ledled y DU. Gallwch roi unrhyw ymateb i'r mater hwn yn adran 'sylwadau cyffredinol' yr ymateb i'r ymgynghoriad.

Gall y meysydd dan sylw gynnwys cyfranogaeth myfyrwyr, cyflogadwyedd (gan gynnwys entrepreneuriaeth), dysgu seiliedig ar waith, gweithio gyda phartneriaid, a dysgu hyblyg a dysgu o bell. Mewn nifer o wledydd y DU, gallai'r arferion ategol fod yn rhan o'r fframwaith rheoliadol.

5. A yw'r cynnig a amlinellwyd uchod i ddatblygu arferion ategol yn:
 - a. Gwasanaethu anghenion pob un o wledydd y DU?
 - b. Gwasanaethu anghenion sector sy'n gynyddol amrywiol?

Cyngor a chyfarwyddyd

Bydd y Disgwyliadau newydd, yr arferion craidd newydd a'r arferion ategol newydd wedi'u tanategu gan gyngor a chyfarwyddyd. Bydd ymgynghoriad ar wahân â'r sector a rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn diffinio natur y cyfarwyddyd hwn a'r pynciau y gallai eu cynnwys. Disgwylir y bydd y cyfarwyddyd sy'n bresennol o fewn y Cod, ar ôl eu diweddarau a'u mireinio'n briodol, yn rhan allweddol o'r cynnwys newydd.

Y camau nesaf

Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored i unigolion a sefydliadau sydd â diddordeb yn addysg uwch y DU. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan fyfyrwyr, cyrff llywodraethu ac arweinwyr uwch sy'n cynrychioli'r amrywiaeth eang yn addysg uwch y DU, a gan gyflogwyr graddedigion a rhanddeiliaid eraill.

I roi eich ymateb i'r ymgynghoriad, ewch i www.ukscqa.org.uk os gwelwch yn dda.

I gofrestru ar gyfer un o'r gweithdai, ewch i www.qaa.ac.uk.

Ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r gweithdai, bydd UKSCQA ac ASA yn cydweithio i lunio cyfres newydd derfynol o Ddisgwyliadau ac arferion craidd. Byddwn yn disgwyl i'r rhain gael eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2018. Bydd gwaith pellach yn parhau ar strwythur, ffurf a hygyrchedd y Cod dros y flwyddyn ddilynol, a bydd yn cynnwys datblygu arferion ategol yn ogystal â chyngor a chyfarwyddyd. Bydd ymgynghoriad pellach ar strategaeth ar gyfer y broses hirdymor o reoli ac adolygu'r Cod.

Yr amserlen

2017

Medi	UKSCQA yn ystyried yr amserlen a'r diwygiadau a gynigir i'r Cod
Hydref	UKSCQA yn lansio ymgynghoriad drwy'r DU gyfan ar y Disgwyliadau newydd a'r arferion craidd newydd; ASA yn cydlynu'r ymgynghoriad ac yn amserlennu gweithgareddau cefnogol
Rhagfyr	Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad

2018

Ionawr	Dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad
Chwefror	UKSCQA yn ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad
Mawrth	UKSCQA yn cymeradwyo ac yn cyhoeddi'r Disgwyliadau newydd a'r arferion craidd newydd

2018 *parhad*

Ebrill	ASA yn cychwyn rhaglen o weithgareddau ymgynghori drwy'r DU gyfan gyda'r sector a rhanddeiliaid eraill, er mwyn datblygu arferion ategol a diwygio strwythur, ffurf a hygyrchedd y cyngor a'r cyfarwyddyd sydd ar gael i danategu'r Disgwyliadau a'r arferion
Tachwedd	UKSCQA yn llofnodi ac yn lansio'r arferion ategol newydd a'r cyngor a'r cyfarwyddyd sydd wedi'u diwygio

2019

Ionawr	Gweithgareddau ymgynghori drwy'r DU gyfan yn cychwyn er mwyn hysbysu strategaeth ar gyfer rheoli a chynnal y Cod yn y dyfodol
Mai	UKSCQA yn llofnodi'r strategaeth newydd ar gyfer rheoli'r Cod, ac yn rhoi'r strategaeth ar waith

6. Sut ddylem ni gynnwys gwledydd y DU, y sector addysg uwch, myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill (megis cyflogwyr graddedigion) yn y broses o ddatblygu a rheoli'r Cod Ansawdd yn y dyfodol?

Gwahoddir ymatebwyr i roi eu barn ac unrhyw sylwadau ychwanegol ar y cynigion hyn yn adran 'sylwadau cyffredinol' yr arolwg ar-lein.